Gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar, Merthyr Tudful

Evaluation of the economic and cultural impact of Canolfan Soar, Merthyr Tydfil

Adroddiad terfynol a gyflwynwyd i **Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful** gan **Arad Research**

29 Gorffennaf 2015

Final report presented to **Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful** by **Arad Research**

29th July 2015

Arad Research
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Caerdydd/Cardiff
CF10 4SD
www.aradresearch.com

ymchwil arad research

Contents / Cynnwys

Crynodeb gweithredol **3**

Executive summary **5**

Background to the development of Canolfan Soar 5

Methodology 5

Key findings 6

1. Cyflwyniad **7**

1.1 Ynglŷn â Chanolfan Soar 7

1.2 Trosolwg o'n dull 8

2. Traweffaith economaidd **10**

2.1 Dadansoddiad o draweffaith economaidd 10

2.2 Barn rhanddeiliaid 12

2.3 Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol 12

3. Traweffaith diwylliannol ac amgylcheddol **14**

3.1 Traweffaith diwylliannol 14

3.2 Traweffaith ar yr amgylchedd adeiledig 15

3.3 Ymatebion i arolwg yr ymwelwyr 16

4. Partneriaethau a chynaliadwyedd **19**

4.1 Partneriaethau 19

4.2 Datblygiadau'r dyfodol 19

5. Casgliadau **21**

Crynodeb gweithredol

Comisiynwyd Arad Research gan Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful i gwblhau gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar.

Amcanion yr astudiaeth oedd:

- Cyflwyno gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar;
- Darparu data i arwain a chryfhau datblygiad a chynaliadwyedd Canolfan Soar yn y dyfodol a chynorthwyo ceisiadau am arian yn y dyfodol;
- I ddadansoddi unrhyw gysylltiadau rhwng yr economi a phwyslais y Ganolfan ar weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg; a
- Cyfrannu at sylfaen ehangach o dystiolaeth ar adfywiad economaidd a diwylliannol Merthyr Tudful.

Cefndir ar ddatblygiad Canolfan Soar

Yn 2011, datblygodd Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful ganolfan iaith Cymraeg - Canolfan Soar - sydd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol a gweithgareddau'n ymwneud ag etifeddiaeth i bobl Merthyr Tudful. Mae Canolfan Soar yn cwmpasu hen adeilad Capel Cymreig sydd wedi ei drawsnewid yn Theatr Gymunedol ac mae'r adeilad festri gyfagos bellach yn Ganolfan Iaith Gymraeg. Mae'r Ganolfan hwn yn cynnig siop, caffi, swyddfeydd ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac ar gyfer sefydliadau eraill, a Chylch Meithrin.

Mae Canolfan Soar yn gartref i nifer o sefydliadau iaith Cymraeg sydd yn gwasanaethu'r gymuned ym Merthyr Tudful, sef Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, Urdd Gobaith Cymru, Lles, Cymraeg i Oedolion a Mudiad Meithrin. Mae Coleg Merthyr hefyd yn denant i'r Ganolfan.

Amcan strategol Canolfan Soar yw cyfrannu tuag at adfywiad canol tref Merthyr, drwy ddarparu lleoliad i bobl gwrdd, dysgu, cymdeithasu ac ymgysylltu ag addysg a'r celfyddydau. Nod gweithgareddau'r ganolfan yw cynyddu hyder, cynyddu hunan-barch ac ehangu gorwelion drwy'r celfyddydau ac addysgu tra'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd yn lleol.

Methodoleg

Cwblhaodd Arad ymchwil desg i ddadansoddi data cymdeithasol-economaidd a gasglwyd gan Ganolfan Soar, megis niferoedd cynulleidfa, data gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a staff, buddsoddiad pellach a atynnwyd a'r cyllid a grëwyd. Mae'r draweffaith economaidd flynyddol a grëwyd gan Ganolfan Soar yn seiliedig ar wariant uniongyrchol, anuniongyrchol a chamau pellach a ysgogwyd gan weithgareddau mae'r Ganolfan yn cynorthwyo.

Cwblhaodd Arad ystod o waith maes i gasglu data ansoddol a meintiol pellach yn ymwneud â thraweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar. Roedd y gwaith maes yn cwmpasu cyfweliadau gyda rhanddeiliaid strategol, staff Canolfan Soar a grwpiau cymunedol lleol, ynghyd ag arolygon o denantiaid ac ymwelwyr Canolfan Soar.

Canfyddiadau allweddol

Mae datblygiad Canolfan Soar wedi arwain at draweffaith gref ar yr economi leol ym Merthyr Tudful. Cyfrannodd y Ganolfan **£594,100 – £608,537** i'r economi leol yn 2014 ac amcangyfrifir mai cyfanswm y traweffaith economaidd a grëwyd gan Ganolfan Soar o fewn economi de Cymru yw **£1.29 – £1.30 million.**

Mae Canolfan Soar hefyd wedi creu enillion cadarnhaol ar y buddsoddiadau cyllid a grant prosiect a dderbyniwyd. Mae'r **£173,000** a dderbyniwyd gan Ganolfan Soar mewn ffurf grantiau wedi arwain at draweffaith economaidd crynswth o **£323,310 – £331,170** o fewn Merthyr Tudful a **£707,47 – £709,810** ar draws de Cymru.

Drwy ddarparu gofod ar gyfer busnesau lleol, mae Canolfan Soar a'i denantiaid yn cyfrannu tuag at ddatblygu'r seilwaith economaidd lleol. Maent hefyd yn sicrhau traweffaith cadarnhaol pellach drwy ddarparu cyflogaeth a defnyddio ystod o gyflenwyr lleol. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu'n ganolbwynt cymunedol ac mae'n cynnal casgliad o fusnesau â meddylfryd tebyg sydd yn annog rhannu gwybodaeth a hybu partneriaethau creadigol.

Mae'r Ganolfan wedi datblygu'n bartner allweddol ar gyfer adfywiad economaidd ac amgylcheddol ar draws ardal Portmorlais ym Merthyr Tudful. Mae datblygiad Canolfan Soar wedi cydblethu â rhaglenni adfywio lleol ac mae'r Ganolfan yn darparu lleoliad i bobl gwrdd, dysgu, cymdeithasu ac ymgysylltu ag addysg a'r celfyddydau. Gellir gweld y Ganolfan felly fel sefydliad pwysig sydd yn denu pobl yn ôl at ganol y dref.

Mae'r pwyslais cryf ar etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol Merthyr Tudful wedi bod yn elfen hanfodol o draweffaith y Ganolfan. Mae'r Ganolfan wedi ymgysylltu â'r gymuned iaith Gymraeg a'r gymuned ehangach drwy hybu creadigrwydd a chyfranogaeth. Mae'r Ganolfan wedi datblygu fel canolbwynt i'r iaith Gymraeg ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at godi proffil yr iaith a chefnogi dysgwyr, siaradwyr Cymraeg a busnesau iaith Gymraeg.

Mae Canolfan Soar wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at newid canfyddiadau o Ferthyr Tudful fel lle ar gyfer digwyddiadau diwylliannol ac i ehangu mynediad i'r celfyddydau. Mae'r Ganolfan yn cyrraedd ei amcanion i ehangu cyfranogaeth, cwrdd â'r galw a chynyddu'r galw am weithgareddau celfyddydol a darparu rhaglen ddiwylliannol amrywiol ar gyfer bobl Merthyr Tudful a de Cymru.

Mae Canolfan Soar wedi datblygu ystod o bartneriaethau ar lefel strategol, rheoli ac artistig. Ar lefel leol, ystyrir bod y Ganolfan yn gweithio'n llwyddiannus ac yn strategol gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill yn cyfrannu at adfywiad lleol a phrosiectau diwylliannol.

I gynnal y draweffaith hon mae angen i Canolfan Soar ddatblygu'r partneriaethau hyn ac ystyried gwneud ceisiadau ar y cyd am gyllid a digwyddiadau diwylliannol yn y dyfodol. Gall y partneriaethau hyn alluogi'r Ganolfan i ganolbwyntio ar godi cyllid hirdymor yn ogystal â datblygu rhaglen gelfyddydol mwy masnachol i gynorthwyo'i dwf.

Dylid cydbwyso'r dull masnachol hwn drwy cefnogi digwyddiadau celfyddydau heriol ac o ansawdd ac ehangu'i apêl ddiwylliannol. Gellir sicrhau hyn drwy adeiladu ar y cryfderau iaith Gymraeg ac ymgysylltu â'r holl gymunedau ym Merthyr Tudful a de Cymru.

Executive summary

Arad Research was commissioned by Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful to undertake an evaluation of the economic and cultural impact of Canolfan Soar.

The objectives of the study were:

- To present an evaluation of the economic and cultural impact of Canolfan Soar;
- To provide data that will inform and strengthen the future development and sustainability of Canolfan Soar and support future funding applications;
- To analyse any links between the economy and Canolfan Soar's focus on delivering activities associated with the Welsh language; and
- To contribute to a wider body of evidence on the economic and community regeneration of Merthyr Tydfil.

Background to the development of Canolfan Soar

In 2011 Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful developed a Welsh language centre – Canolfan Soar - which offers a wide range of cultural, artistic and heritage opportunities to the people of Merthyr Tydfil. Canolfan Soar encompasses an old Welsh Chapel building that has been transformed into a Community Theatre and the adjoining vestry building is now a Welsh Language Centre. The Centre offers a shop, café, office accommodation for Welsh language promotion and other organisations and a Cylch Meithrin early years provision.

Canolfan Soar is home to a number of Welsh language organisations that serve the Merthyr Tydfil community. These are Canolfan a Menter Cymraeg itself, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Oedolion, Lles and Mudiad Meithrin. Merthyr College is also a tenant at the Centre.

Canolfan Soar's strategic goal is to contribute to the regeneration of Merthyr town centre, by providing a place for people to meet, learn, socialise and engage with education and the arts. Its activities aim to raise confidence, increase self esteem and broaden horizons through the arts and education while contributing to local economic development.

Methodology

Arad undertook desk research to analyse socio-economic data that Canolfan Soar had collected, such as audience numbers, expenditure data on goods, services and staff, further investment attracted and revenue generated. The annual economic impact generated by Canolfan Soar is based on the direct, indirect and subsequent rounds of expenditure induced by the activities supported by the Centre.

Arad undertook a range of fieldwork activities to collect further qualitative and quantitative data relating to the economic and cultural impact of Canolfan Soar. These activities comprised interviews with strategic stakeholders, Canolfan Soar staff and local community groups, along with surveys of Canolfan Soar's tenant businesses and visitors.

Key findings

The development of Canolfan Soar has had a strong impact on the local economy of Merthyr Tydfil. The Centre generated **£594,100 – £608,537** for the local economy in 2014 while the total economic impact generated by Canolfan Soar within the south Wales economy is estimated to be **£1.29 – £1.30 million.**

Canolfan Soar has generated a positive return on revenue and project grant funding investments received. The **£173,000** received by Canolfan Soar in the form of grants generates a gross economic impact of **£323,310 – £331,170** within Merthyr Tydfil and **£707,47 – £709,810** across south Wales.

Through its provision of space for local businesses Canolfan Soar and its tenants are contributing to developing the local economic infrastructure. They make a further positive impact by providing employment and using a range of local suppliers. The Centre has also become a community hub and is host to a cluster of like-minded businesses which is promoting knowledge exchange and creative partnerships.

Canolfan Soar has become a key partner for economic and environmental regeneration across the Portmorlais area of Merthyr Tydfil. Canolfan Soar's development has integrated with local regeneration programmes and the Centre is providing a place for people to meet, learn, socialise and engage with education and the arts. The Centre can thus be viewed as an important driver in encouraging people back into the town centre.

The strong emphasis on the linguistic and cultural heritage of Merthyr Tydfil has been an essential element of the Centre's impact. The Centre has engaged the local Welsh-speaking and wider community in Merthyr through encouraging creativity and participation. The Centre has become a Welsh language hub and is a key driver in raising the profile of the language and supporting learners, Welsh speakers and Welsh language businesses.

Canolfan Soar has made an important contribution to changing perceptions of Merthyr Tydfil as a place for cultural events and widening access to the arts. The Centre is delivering on its goals to widen participation, meet and increase demand for the arts and provide a varied cultural programme for the people of Merthyr Tydfil and south Wales.

Canolfan Soar has developed a range of partnerships at strategic, managerial and artistic level. At a local level the Centre is considered to be working successfully and strategically with the local authority and other organisations in contributing towards local regeneration and cultural projects.

To sustain this impact Canolfan Soar needs to further develop these partnerships and consider future joint funding bids and cultural events. These partnerships can allow the Centre to focus on leveraging in longer-term funding as well as developing a more commercial artistic programme to support its growth.

This commercial approach should be balanced with a focus on quality and challenging arts events and broadening the Centre's cultural appeal. This can be achieved through building on its Welsh language strengths and engaging with all communities in Merthyr Tydfil and south Wales.

1. Cyflwyniad

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful i werthuso traweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar.

Amcanion yr astudiaeth oedd:

- Cyflwyno gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar;
- Darparu data a fydd yn hysbysu ac yn cryfhau datblygiad a chynaliadwyedd Canolfan Soar yn y dyfodol a chefnogi ceisiadau am arian yn y dyfodol;
- Dadansoddi unrhyw gysylltiadau rhwng yr economi ac ymagwedd Canolfan Soar at y Gymraeg; a
- Chyfrannu at gorff ehangach o dystiolaeth o adfywio economaidd a chymunedol Merthyr Tudful.

Gan ystyried yr amcanion hyn, canolbwyntiodd y gwerthusiad ar draweffaith Canolfan Soar yn:

- Economaidd;
- Diwylliannol;
- Traweffaith ar y gymuned Gymraeg;
- Traweffaith ar y gymuned leol ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwaith maes a'r dadansoddiad data rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2015.

1.1 Ynglŷn â Chanolfan Soar

Nod Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yw hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym Merthyr Tudful trwy effeithio ar adfywio cymunedol a datblygiad economaidd. Mae'r sefydliad yn Elusen ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant sydd wedi'i reoli gan Gyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr sy'n cefnogi Prif Swyddog a thîm o 5 aelod o staff sy'n cynnal gweithgareddau ac yn rheoli'r ganolfan.

Mae'r sefydliad wedi datblygu canolfan Gymraeg - Canolfan Soar - sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd diwylliannol, artistig a threftadaeth i bobl Merthyr. Mae Canolfan Soar yn cwmpasu hen adeilad Capel Cymraeg sydd wedi'i drawsffurfio'n Theatr Gymunedol ac mae'r festri gyfagos bellach yn Ganolfan Gymraeg sy'n cynnig siop, caffi, swyddfeydd i hyrwyddo'r Gymraeg a sefydliadau eraill a darpariaeth blynyddoedd cynnar Cylch Meithrin.

Mae Canolfan Soar yn gartref i sefydliadau Cymraeg sy'n gwasanaethu cymuned Merthyr, sef y Ganolfan a'r Fenter Cymraeg ei hun, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Oedolion, Lles a Mudiad Meithrin. Mae Coleg Merthyr hefyd yn denant ac yn defnyddio'r theatr fel lle i fyfyrwyr celfyddydau perfformio ymarfer a pherfformio. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys cynnig Theatr Gymunedol, llogi ystafelloedd cyfarfod, gweithgareddau, perfformiadau, a chynadleddau.

Sefydlwyd Canolfan Soar i ddarparu cyfleoedd dysgu i bob sector o'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys cynnig gweithgareddau megis Cymraeg i Oedolion, dosbarthiadau Dysgu

Oedolion yn y Gymuned gan sefydliadau megis UHOVI, QWEST, WEA a Chyngor Merthyr Tudful, cyfleoedd hyfforddi gan ddarparwyr niferus a chyrsiau BTEC a Gradd gan Goleg Merthyr.

Mae nodau gwreiddiol Canolfan Soar yn parhau, sef cyfrannu at adfywio canol tref Merthyr trwy ddarparu lle i bobl cwrdd, dysgu a chymdeithasu ac ymgymryd ag addysg a'r celfyddydau. Nod gweithgareddau Canolfan Soar yw magu hyder, codi hunan barch ac ehangu gorwelion trwy'r celfyddydau ac addysg wrth gyfrannu at ddatblygiad economaidd lleol.

1.2 Trosolwg o'n dull

Gwnaeth Arad ymchwil swyddfa i fapio cyd-destun cyffredinol datblygiad Canolfan Soar ac ystod y prosiectau unigol a gefnogir. Defnyddio Arad ymchwil swyddfa i gasglu ac archwilio data economaidd-gymdeithasol yr oedd Canolfan Soar wedi'i gasglu, megis niferoedd cynulleidfa, data gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a staff, buddsoddiad pellach a ddenwyd a refeniw a gynhyrchwyd. Cyfunwyd y data hwn â'r data ansoddol a meintiol a gasglwyd yn y gwaith maes a amlinellir isod.

Mae traweffaith economaidd blynyddol Canolfan Soar wedi'i seilio ar gylchoedd gwariant uniongyrchol, anuniongyrchol a dilynol a grëir gan y gweithgareddau y mae'r ganolfan yn eu cefnogi. Mae ein dadansoddiad o'r traweffaith yn canolbwyntio ar wariant uniongyrchol Canolfan Soar ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau yn economïau lleol Merthyr a De Cymru. Mae hefyd yn ystyried gwariant ar gyflogau lleol a chyflenwadau gan denantiaid sy'n defnyddio'r gofod masnachol yng Nghanolfan Soar, yn ogystal â'r gwariant yn yr economi leol y tu allan i Ganolfan Soar, gan y rheini sy'n ymweld â'r amryw ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynhelir yna.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn ystyried yr effaith ddilynol neu'r effaith a grëwyd gan y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchwyd. Mae hyn wedi'i seilio ar y cynsail bod gwariant gan unigolyn neu sefydliad yn yr economi leol yn incwm i un neu rywun arall. Mae'r incwm hwn, yn ei dro, yn debygol o ysgogi cylchoedd eraill o wariant yn yr economi leol.

Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y traweffaith economaidd gros a gynhyrchir gan Ganolfan Soar. Nid yw'n ystyried agweddau gwrthffeithiol, h.y. y traweffaith y gellid bod wedi'i gynhyrchu yn yr economi leol heb Ganolfan Soar.

Casglwyd y data am wariant Canolfan Soar yn yr economi leol o gyfrifon 2013-14 y ganolfan. Casglwyd y data am wariant lleol gan Denantiaid Canolfan Soar mewn cyfweliadau â'r tenantiaid. Amcangyfrifwyd data am wariant ymwelwyr ar sail ffigurau gwariant cyfartalog gan ymwelwyr yn ystod yr arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon[1].

Cyfrifwyd y cylchoedd gwariant pellach a gynhyrchwyd gan y gwariant hwn trwy ddefnyddio lluosyddion safonol a gyfrifwyd mewn astudiaethau blaenorol e.e. Prifysgol Sheffield, 2004 (gweler troednodyn 3)

[1] Mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar ymatebion gan 84 o ymwelwyr i arolwg oedd yn cynnig ystod hyder o 11% ar lefel hyder o 95%

I gael data ansoddol a meintiol arall am draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar, cynhaliodd Arad ystod o weithgareddau gwaith maes. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid strategol, staff Canolfan Soar a grwpiau cymunedol lleol ynghyd ag arolygon o sefydliadau tenant Canolfan Soar ac ymwelwyr.

Cynhaliodd Arad ddeg cyfweliad â rhanddeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, sefydliadau diwylliannol, grwpiau busnes lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gwnaeth y cyfweliadau ymdrin â:

- Eu perthynas/ Perthynas eu sefydliad â Chanolfan Soar;
- Traweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar ar Ferthyr Tudful;
- Gwaith partneriaeth; a
- Chyfleoedd datblygu Canolfan Soar yn y dyfodol.

Cynhaliodd Arad arolwg o ymwelwyr â Chanolfan Soar dros dair wythnos ym mis Mawrth 2015 i gael cipolwg ar farn ymwelwyr. Datblygwyd yr arolwg gan Arad a chafodd ei ddosbarthu ar ffurf bapur i ymwelwyr gan staff Canolfan Soar. Llenwodd cyfanswm o 84 o ymwelwyr yr arolwg. Canolbwyntiodd yr arolwg ar:

- Natur eu hymweliad â Chanolfan Soar;
- Eu barn ar draweffaith Canolfan Soar ar Ferthyr Tudful; a'u
- Gwariant yng Nghanolfan Soar a Merthyr Tudful.

Cynhaliwyd arolwg electronig hefyd o denantiaid Canolfan Soar ac ymatebodd 4 o'r 5 o denantiaid. Canolbwyntiodd yr arolwg ar:

- Natur eu busnes;
- Eu barn ar draweffaith Canolfan Soar ar eu busnes a Merthyr Tudful;
- Eu gwariant yn yr ardal leol.

2. Traweffaith economaidd

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn darparu dadansoddiad o draweffaith economaidd Canolfan Soar. Mae'n cyfrifo cyfanswm gwariant a gwariant anuniongyrchol Canolfan Soar a'i thenantiaid a thraweffaith economaidd y Ganolfan yn sgil hyn ar Ferthyr Tudful a de Cymru'n ehangach. Mae hefyd yn darparu asesiad o adenillion ar fuddsoddiad gan y Ganolfan.

2.1 Dadansoddiad o draweffaith economaidd

Gwariant Canolfan Soar

Cyfanswm gwariant Canolfan Soar ar nwyddau, gwasanaethau a chyflogau yn ystod 2013 – 14 oedd **£243,788**. O hyn, gwariwyd **£87,500** yn ardal Merthyr Tudful; gwariwyd **£99,700** y tu allan i ardal Merthyr ond mewn ardaloedd eraill o dde Cymru, a gwariwyd y **£56,500** sy'n weddill y tu allan i Dde Cymru.

Gwariant ymwelwyr

Yn ystod 2013 - 14 croesawodd Canolfan Soar rhwng 23,600 a 25,200 o ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys tua 21,000 o ymwelwyr a aeth o amryw ddigwyddiadau a gweithgareddau a 2600-5200 o gwsmeriaid y caffi a/neu'r siop yn y ganolfan heb fynd i ddigwyddiad (sy'n cynrychioli 12-25% o'r holl ymwelwyr).[2] Mae'r dadansoddiad o'r arolwg ymwelwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn dangos bod pob ymwelydd, **ar gyfartaledd, yn gwario £4.44**[3] yn economi leol Merthyr (y tu allan i Ganolfan Soar). Trwy gymhwyso'r cyfartaledd hwn i'r holl ymwelwyr â'r ganolfan yn ystod y flwyddyn ceir cyfanswm o **£104,780 - £116,330** o wariant gan ymwelwyr yn yr economi leol.[4]

Gwariant tenantiaid

Mae tenantiaid busnes sy'n defnyddio lle masnachol Canolfan Soar yn gwario arian ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau yn economi leol Merthyr a thu hwnt. Roedd gwariant blynyddol tenantiaid ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau ym Merthyr tua **£283,000.** Dywedodd tenantiaid eu bod yn gwario tua'r un swm ar nwyddau a gwasanaethau y tu allan i Ferthyr ond mewn ardaloedd eraill o Dde Cymru.

Cyfanswm y gwariant

[2] Mae niferoedd y caffi a'r siop wedi'u seilio ar amcangyfrifon gan staff Canolfan Soar bod 50-100 o bobl yn ymweld â'r siop a/neu'r caffi bob wythnos heb ddod i ddigwyddiad. Nid yw Canolfan Soar yn cofnodi'r ffigurau hyn yn swyddogol.

[3] Mae gwariant ymwelwyr cyfartalog a gofnodir ar gyfer Canolfan Soar fel rhan o'r astudiaeth hon ychydi yn is na gwariant ymwelwyr cyfartalog a gofnodwyd mewn astudiaethau blaenorol e.e. *An economic impact study of UK Theatre* (2008) *An economic impact study of Rhyl Pavilion Theatre* (2008) a *An economic impact study of Torch Theatre Milford Haven* (2002/3) sy'n awgrymu gwariant ymwelwyr cyfartalog o £5 i £7.

[4] Mae hyn yn cynnwys £93,240 o'r rheini sy'n mynd i ddigwyddiadau neu gweithgareddau a rhwng £11,500 a £23,090 o gwsmeriaid y caffi a'r siop nad ydynt yn mynd i ddigwyddiadau. Mae hyn yn cymryd bod gwariant ymwelwyr cyson gan y grwpiau hyn

Cyfanswm y gwariant ym Merthyr Tudful yn sgil gwariant uniongyrchol gan Ganolan Soar a'i thenantiaid yn ogystal â gwariant anuniongyrchol yn yr economi leol gan ymwelwyr â'r ganolfan yn 2013-14 = **£475,280 – £486,830**. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwariant uniongyrchol Canolfan Soar: £87,500
- Gwariant ymwelwyr: £104,780-£116,330
- Gwariant tenantiaid: £283,000

Cyfanswm y gwariant yn ne Cymru (gan gynnwys Merthyr) yn sgil gwariant uniongyrchol gan Ganolan Soar a'i thenantiaid yn ogystal â gwariant anuniongyrchol yn yr economi leol gan ymwelwyr â'r ganolfan yn 2013-14 = **£857,980 – £869,530**. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwariant uniongyrchol Canolfan Soar: £87,500 + £99,700
- Gwariant ymwelwyr: £104,780-£116,330
- Gwariant tenantiaid: £283,000 + £283,000

Wrth ystyried cylchoedd pellach o wariant a gynhyrchwyd gan y gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol a nodir uchod, mae'r traweffaith economaidd blynyddol a gynhyrchir yn uwch. Gan fod economi Merthyr Tudful yn canolbwyntio ar ardal gymharol fach mae'n llai tebygol y bydd llawer o'r cylchoedd pellach o wariant a gynhyrchir yn aros yn yr economi leol, h.y. bydd llawer o'r incwm a geir gan fusnesau lleol yn sgil gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael ei wario y tu allan i Ferthyr. Bydd effaith y lluosydd yn yr ardal hon felly'n llai na'r hynny a geir ar draws ardaloedd economaidd mwy. Ar y llaw arall, mae economi de Cymru'n ymestyn ar draws ardal ddaearyddol a phoblogaeth ehangach. O ganlyniad i hyn mae mwy o'r gwariant ar draws De Cymru'n debygol o aros yn economi de Cymru.

Cymerir mai 1.5 yw'r effaith lluosydd i addasu ar gyfer cylchoedd ychwanegol o wariant a gynhyrchir ar draws rhanbarth economaidd de Cymru. Bydd effaith lluosydd Merthyr ynn llai na hyn (cymerir ei fod tua 1.25).

Gan ystyried yr effeithiau lluosydd hyn:

- Amcangyfrifir bod cyfanswm y traweffaith economaidd a gynhyrchir gan weithgareddau Canolfan Soar yn economi Merthyr yn 2014 yn **£594,100 – £608,537**
- Amcangyfrifir bod cyfanswm y traweffaith economaidd a gynhyrchir gan weithgareddau Canolfan Soar yn economi de Cymru yn 2014 yn **£1.29 – £1.30 miliwn**

Adenillion ar fuddsoddiad

Cynhyrchodd Canolfan Soar incwm o **£317,932** yn 2014. Daeth bron i hanner hwn (46%) o rent, gweithgareddau a digwyddiadau yn y ganolfan a'r theatr, yn ogystal ag incwm o waith cyfieithu a'r cylch chwarae. Daeth 54% o'r incwm sy'n weddill o grantiau gan Lywodraeth Cymru, Y Loteri Fawr, Loteri Treftadaeth a CBS Merthyr Tudful.

Golyga hyn fod pob **£1** o incwm a geir gan Ganolfan Soar yn cynhyrchu traweffaith gros o **£1.87 – £1.91** ym Merthyr Tudful a **£4.05 – £4.10** yn economi De Cymru. Gellir ystyried felly bod y **£173,000** a geir gan Ganolfan Soar ar ffurf grantiau yn cynhyrchu traweffaith economaidd gros o **£323,310 – £331,170** ym Merthyr Tudful a **£707,470 – £709,810** ar draws de Cymru.

2.2 Barn rhanddeiliaid

Y consensws ymhlith rhanddeiliaid oedd bod Canolfan Soar yn effeithio'n gadarnhaol ar gefnogi'r economi leol, er bod hyn yn bennaf ar sail canfyddiadau yn hytrach na data gwyddonol.

I'r rhanddeiliaid hyn, mae'r Ganolfan wedi annog mwy o ddigwyddiadau busnes proffesiynol ym Merthyr trwy ddarparu lle am gynadleddau a chyfarfodydd a rhaglenni teledu megis y darllediad diweddar o 'Pawb a'i Farn'. Nododd llawer o'r rhanddeiliaid bod Canolfan Soar a'i thenantiaid yn cyflogi'n lleol ac yn cael adnoddau'n lleol, sy'n cyfrannu at economi Merthyr Tudful. Nododd eraill bod y Ganolfan yn denu ymwelwyr o'r tu hwnt i Ferthyr a chymoedd de Cymru ac y gallu hyn ychwanegu at weithgarwch economaidd yn yr ardal a chynyddu'i phroffil fel ardal o ddigwyddiadau diwylliannol.

'Gall yr elfen menter gymdeithasol gyflawni traweffaith economaidd. Mae wedi cael effaith gyffredinol gadarnhaol ac mae'n fodel o ganolfan ddiwylliannol/caffi/siop lyfrau i gyflawni cyflogaeth a thwf economaidd. Mae'n ehangu apêl Merthyr fel lle i wneud busnes trwy'i gyfleusterau, arddangosfeydd a chynadleddau.'

Dywedodd rhanddeiliaid y gall busnesau lleol hyrwyddo digwyddiadau ychwanegol yn y Ganolfan. Nododd rhanddeiliaid a thenantiaid bod ymwelwyr â digwyddiadau penodol, er enghraifft darlithoedd hanes neu berfformiadau theatr, yn ystyried y Ganolfan yn lleoliad deniadol a'u bod yn aros am luniaeth a gweithgareddau yn y Ganolfan ac mewn lleoliadau eraill ym Merthyr Tudful. Dywedodd nifer o randdeiliaid bod digwyddiadau diwylliannol y Ganolfan yn helpu i hybu'r economi leol, e.e. trwy hybu artistiaid lleol a gwerthu crefftau lleol, a thrwy werthu nwyddau yn y siop lyfrau.

'Mae'r busnesau yn y Ganolfan yn fusnesau lleol na fyddant yn bodoli heb fframwaith y Ganolfan.'

2.3 Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol

Cafodd Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful bron i £1.4m tuag at brosiect adnewyddu gwreiddiol Canolfan Soar. Ymhlith y grantiau cyfalaf mwyaf hyn roedd £580,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at gostau datblygu, adnewyddu a refeniw; £420,000 gan Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at adnewyddu ac fel grant cyfalaf ar gyfer y theatr; a £300,000 gan Gronfa Adnewyddu Blaenau'r Cymoedd fel grant cyfalaf tuag at waith yn y Ganolfan.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi cael arian grant cyfalaf a refeniw trwy nifer o grantiau llai, megis bron i £10,000 gan Ymddiriedolaeth Adfywio Coalfields a bron i £20,000 o grantiau asedau cyfalaf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae'r Ganolfan yn parhau i gael grantiau cyfalaf a refeniw o ystod o ffynonellau, gan gynnwys bron i £65,000 gan y Gronfa Loteri Fawr a £10,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn 2013-14 a thros £25,000 gan y Cyngor Celfyddydau a POSSIB yn 2012-13. Mae arian craidd ar gael ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru (£57,454 yn 2013-14) a Chyngor

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (trwy gytundeb lefel gwasanaeth gwerth ychydig dros £15,000 yn flynyddol).

Roedd rhanddeiliaid o'r farn y bu Canolfan Soar yn llwyddiannus iawn yn manteisio ar arian o ffynonellau eraill. Fel y manylir uchod, dywedon nhw bod Canolfan Soar wedi dod ag arian o ystod eang o ffynonellau i gefnogi adnewyddu a datblygu'r adeilad a'r rhaglen artistig. Ystyrir bod yr amrywiaeth hon o ran strategaethau ariannu a ffynonellau'n allweddol i'w llwyddiant.

Dywed rhandeiliaid bod y llwyddiant hefyd yn sgil ystod o ffactorau eraill, gan gynnwys cynllunio strategol effeithiol, dealltwriaeth dda o'r hinsawdd arian yng Nghymru a thargedu ystod o ffynonellau arian yn llwyddiannus. Ymhlith y ffynonellau a nodwyd mae'r celfyddydau, treftadaeth ac adnewyddu, adfywio economaidd, ailddatblygu adeiladau a'r Gymraeg. Fel y mae'r dadansoddiad economaidd wedi'i ddangos, mae'r adenillion ar y buddsoddiad hwn wedi cael traweffaith positif ar economi Merthyr Tudful yn ogystal ag economi ehangach de Cymru.

3. Traweffaith diwylliannol ac amgylcheddol

3.1 Traweffaith diwylliannol

Ym marn rhanddeiliaid Canolfan Soar, y mae wedi dod yn lleoliad allweddol ym Merthyr ar gyfer cyngherddau, theatr a gweithgareddau diwylliannol eraill. Mae'n lleoliad croesawgar, yn ôl pawb a gafodd gyfweliad, sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau diwylliannol gan gynnwys cyngherddau, dramâu, perfformiadau dawns a chelfyddydau gweledol. Dywedodd nifer o'r rhanddeiliaid hefyd fod y ganolfan yn cynnal digwyddiadau gwleidyddol, yn cefnogi gweithgareddau dwyieithog ac yn gweithredu fel hwb cymdeithasol.

'Mae'n lleoliad ar raddfa fach, mae'n dal ei dir ym Merthyr, mae'n rhywbeth dirnadwy iawn. Mae wedi gwella'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig yn ddiwylliannol ac mae'r helpu i roi bywyd newydd i Ferthyr.'

Roedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn ystyried bod y digwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn y Ganolfan o safon uchel. Fodd bynnag, cydnabu bod rhai digwyddiadau wedi canolbwyntio'n fwy ar ymgysylltiad a chymryd rhan (trwy weithgareddau megis dosbarthiadau dawnsio i blant, digwyddiadau ysgolion, gweithdai ac operâu cymunedol). Roedd yr holl randdeiliaid o'r farn fod rhaglen gelfyddydau cymryd rhan y Ganolfan yn rhagorol ac yn allweddol i sefydlu'i hun yn ymwybyddiaeth y dref.

'Mae 'naws' y Ganolfan yn wych, mae'r lleoliad yn ymlaciedig bob tro, mae'r staff yn gymwynasgar ac mae'r theatr o safon dda iawn.'

I lawer o'r rhanddeiliaid, fodd bynnag, mae rhaglen gelfyddydau heriol o safon yn eisiau ar hyn o bryd yng Nghanolfan Soar. Serch hynny, cydnabu'r unigolion hyn gynnydd tuag o ran annog a dangos celfyddydau perfformio proffesiynol o safon.

'Rhaid peidio ag anghofio bod gweithgarwch diwylliannol ym Merthyr yn brin ac yn ad hoc tan yn ddiweddar... mae cael pobl leol i ddod i arfer â mynd i ddigwyddiadau diwylliannol yn gyflawniad mawr.'

Dywedodd yr holl randdeiliaid nad yw Merthyr yn ddwyieithog yn draddodiadol, fodd bynnag ystyrir yr elfen Gymraeg yng ngwaith ac ethos y Ganolfan yn rhan hanfodol o'i datblygiad a'i thwf. Roedd yr holl randdeiliaid yn ystyried y bu'r Gymraeg yn sbardun tu ôl i ddatblygiad y Ganolfan ac yn allwedd i'w hunaniaeth gref ym Merthyr Tudful. Roedd y broses hon yn gysylltiedig â nodau strategol cymdeithasau tenant Canolfan Soar megis yr Urdd, Menter Iaith, Lles, yn ogystal â Chanolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful ei hun.

'Penderfynom leoli ein hunain yn y Ganolfan oherwydd i ni weld gwerth y lleoliad mewn cymuned oedd yn adlewyrchu ein gwerthoedd ein hunain.'

Ystyriwyd bod Canolfan Soar felly'n cyfrannu'n gadarn i broffil yr iaith mewn ardal nad oedd lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg yn nodweddiadol yno. I rai o'r rhanddeiliaid mae'r ffocws cadarn ar weithgareddau Cymraeg yn cysylltu â gobeithion am yr iaith a chynyddu nifer y siaradwyr yn yr ardal. Ystyriwyd bod y Ganolfan felly'n sbardun allweddol o ran codi proffil yr iaith a chefnogi dysgwyr yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'n darparu cyfle i siaradwyr Cymraeg ymgynnull a chymryd rhan yn y gymuned a dywedwyd bod gwaith

allgymorth, addysgol a diwylliannol y Ganolfan gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn elfen allweddol yn hyn o beth.

'Mae'r Ganolfan wedi dod yn hwb deniadol i'r rheini sy'n dymuno gwybod rhagor am ddiwylliant Cymru'n gyffredinol, yn ogystal â'r iaith Gymraeg yn benodol.'

'Mae ewyllys da tuag at y Gymraeg wedi gwella'n sylweddol yn y dref ac nid yw hyn yn ddiolch dim ond i adeilad y Ganolfan yn unig ond i'w phresenoldeb yn y dref.'

Nododd yr holl randdeiliaid fantais ddiwylliannol a chymunedol gweithgareddau Cymraeg y Ganolfan, ond roedd y rhan fwyaf yn ansicr o'r manteision economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â'r fath ymagwedd. Gwnaeth sawl rhanddeiliad sylwadau am fanteision economaidd tybiedig hybu'r Gymraeg.

I'r rhanddeiliaid hyn, mae datblygiad Canolfan Soar wedi creu swyddi newydd, gan gynnwys swyddi Cymraeg na fyddai wedi bodoli cyn hynny – gan ddarparu cyfleoedd i bobl weithio a defnyddio'r iaith yn lleol. Dywedodd un rhanddeiliad hefyd bod y gwasanaeth cyfieithu sy'n gweithio yn y Ganolfan hefyd yn cefnogi busnesau lleol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn ddwyieithog.

Er na all y dadansoddiad economaidd ynysu'r elfen hon o draweffaith y Ganolfan, mae'r clwstwr o fusnesau Cymraeg, ei rôl fel hwb Cymraeg a'r rhaglen ddiwylliannol Gymraeg gefnogol oll yn cyfrannu at draweffaith economaidd lleol a rhanbarthol y Ganolfan.

'Mae sgiliau Cymraeg wedi'u tanddefnyddio yn yr ardal hon, nid oes system datblygu economaidd go iawn sy'n targedu cyfleoedd yn y Gymraeg, felly mae'n adnodd economaidd newydd.'

Serch hynny, nododd nifer o'r rhanddeiliaid y 'gamp cydbwyso' angenrheidiol o ran datblygu cynnig diwylliannol cynaliadwy i boblogaeth ehangach Merthyr Tudful. Roedd hyn yn cysylltu'n arbennig at yr angen i'r Ganolfan ehangu'i hapêl ddiwylliannol. Credai un o'r rhanddeiliaid bod mynnu ar gyhoeddusrwydd dwyieithog am bopeth yn '*troi rhai pobl i ffwrdd'* ac meddai nifer o randdeiliaid fod 'gwrthwynebiad' yn y dref i ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn unig.

'Mae'n gydbwysedd anodd ganddynt – cânt eu hariannu i hybu'r Gymraeg a diwylliant. Maent yn gwneud hynny ag angerdd a chydwybodolrwydd. Mae'n ddarpariaeth o safon ond nid ydyn nhw'n gwneud pethau'n hawdd. Bu'n fwy o ymdrech i ddwyn perswâd ar gynulleidfa Saesneg y theatr.'

3.2 Traweffaith ar yr amgylchedd adeiledig

Roedd rhanddeiliaid yn ystyried bod y cyfleusterau a ddatblygwyd ac sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghanolfan Soar yn rhan o'i hapêl a'i thraweffaith ar Ferthyr Tudful. Roedd tenantiaid hefyd yn hynod gadarnhaol ar yr agwedd hon. Er enghraifft symudodd un tenant o'i leoliad yn Rhydycar i Ganolfan Soar tua dwy flynedd yn ôl oherwydd bod Soar yn cynnig '*cyfleusterau ac offer llawer gwell*'. Mae'r tenant bellach yn cynnal rhaglenni o ddarlithoedd hanes yn Theatr Soar. Dywedodd tenant arall fod bod yn y Ganolfan wedi'i alluogi i '*ddod yn rhan integredig o fywyd diwylliannol ym Merthyr. O gymharu â'r lleoliad blaenorol, nid ydym mor ynysig, mae llawer o ddigwyddiadau eraill yn digwydd o'n cwmpas.*'

Roedd yr holl randdeiliaid yn hynod gadarnhaol am draweffaith y Ganolfan ar wella amgylchedd adeiledig Merthyr. Yn ôl y rhanddeiliaid hyn, mae trawsffurfiad y Ganolfan yn cydblethu â rhaglen adfywio ffisegol ehangach Merthyr ac mae'n integreiddio'n dda mewn

pecynnau adfywio lleol. Dywedodd cynrychiolwyr o Ganolfan Soar a rhanddeiliaid eraill bod ailddatblygu'r adeilad wedi'i gysylltu â'r fenter Townscape Heritage. Mae hen adeiladau eraill yn cael eu hailddatblygu ym Mhontmorlais bellach, sy'n gysylltiedig ag adfywio gyda Chanolfan Soar a Redhouse ar y blaen. Nododd nifer o'r rhanddeiliaid y celfyddydau a'r diwylliant sy'n dylanwadu ar gynllunio trefol, ac y gall y Ganolfan chwarae rhan ganolog barhaus yn ailddatblygiad Sgwâr Penderyn.

'Mae Canolfan Soar wedi cael traweffaith gweledol uchel ei broffil ar yr ardal, fel y mae prosiectau adfywio lleol eraill.'

'Bu Canolfan Soar yn sbardun ar gyfer adfywio Pontmorlais. Gall pobl weld pethau'n digwydd yn yr ardal bellach, mae buddsoddiad yn mynd i mewn ac mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi hyn trwy lywio newidiadau yn y parth cyhoeddus.'

Canmolwyd adnewyddiad yr adeilad am ei ragoriaeth ac am wneud defnydd da o ofod diffaith, gan gynnig ei hun i gynnal digwyddiadau ac i'r ymwelydd cyffredinol. Dywedodd yr holl randdeiliaid nad oedd unrhyw gyfleuster modern i'r celfyddydau ym Merthyr cyn Canolfan Soar a'i bod wedi darparu lleoliad yr oedd angen mawr amdano yn yr ardal. Dywedwyd bod trawsffurfio cefn yr adeilad a darparu maes parcio a mynedfa newydd yn elfennau pwysig o'r ailddatblygiad. Dywedwyd bod hyn yn darparu cyfleusterau da i bobl oedd yn dymuno mynd i ddigwyddiadau a'i bod yn denu pobl yn ôl i ardal Pontmorlais y dref.

'Mae'r Ganolfan wedi llenwi bwlch eithaf allweddol yn yr ardal ac mae'r dirwedd wedi newid yn sylweddol, mae'r Ganolfan yn cynnig lle a oedd yn eithaf prin yn y dref cyn hynny.'

Mae arolwg yr ymwelwyr (gweler adran 3.3 isod) yn awgrymu bod pobl yn ymweld â'r Ganolfan am ystod o weithgareddau penodol, ond ei bod hefyd yn hwb cymunedol lle mae pobl yn cwrdd am goffi neu fwyd. '*Os ydych chi'n siarad â phobl ym Merthyr ynglŷn â'r Ganolfan, mae pobl yn gwybod amdani, maen nhw'n gwybod yn union beth ydyw a pha weithgareddau sydd ar gael*'. Ystyriodd un sefydliad diwylliannol, sy'n trefnu digwyddiadau'n rheolaidd yno, megis opera cymunedol, fod '*y caffi'n dda iawn, a'r cyfleusterau hefyd*.' Yn ôl rhanddeiliad arall, roedd ansawdd y cyfleusterau'n cyfateb â'r '*croeso gan staff cwmnïau tenant*.'

Serch hynny, nododd rhai rhanddeiliaid fod y Ganolfan ychydig 'o'r neilltu' heb 'gysylltiad naturiol' â'r stryd fawr ym Mhontmorlais. Roedden nhw o'r farn y gall hyn amharu ar geisiadau i ddenu ymwelwyr a chynulleidfaoedd newydd ac o bosib cyfyngu ar draweffaith y Ganolfan. Ystyriwyd bod arwyddion yn broblem i'r rheini nad oedden nhw o Ferthyr Tudful. Fel nododd un rhanddeiliad, '*mae llif y bobl yn brosiect ar ei ganol - mae angen iddyn nhw weithio mewn partneriaeth â'r cyngor ar hyn*.'

3.3 Ymatebion i arolwg yr ymwelwyr

O'r 83 o ymwelwyr a ddywedodd lle'r oedden nhw'n byw, roedd 45.8% yn byw ym Merthyr Tudful, 50.6% y tu allan i Ferthyr Tudful ond yn ne Cymru a 3.6% y tu allan i dde Cymru. Gofynnwyd i'r ymwelwyr pa mor aml roedden nhw'n ymweld â Chanolfan Soar. O'r 81 o bobl a ymatebodd i hyn, dywedodd y mwyafrif (56.8%) eu bod yn ymweld â Chanolfan Soar yn wythnosol. Dywedodd 8.6% eu bod yn ymweld â Chanolfan Soar yn fisol, 21% llai nag unwaith y mis a dywedodd 13.6% eu bod wedi ymweld â Chanolfan Soar unwaith.

Gofynnwyd i'r ymwelwyr "Pe na bai Canolfan Soar yn bodoli, ble arall fyddech chi'n mynd ar gyfer y math o ddigwyddiad rydych wedi bod iddo heddiw?" O'r 76 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dywedodd y mwyafrif sylweddol (67.1%) y byddai'n well ganddynt leoliad arall y tu allan i Ferthyr Tudful ond yn aros yn ne Cymru. Dywedodd 30.3% arall y bydden nhw'n mynd i leoliad arall ym Merthyr. 2.6% yn unig ddywedodd y bydden nhw'n mynd rhywle y tu allan i dde Cymru.

Wrth gynnig rheswm dros eu hymweliad â Chanolfan Soar, yr ateb mwyaf cyffredin oedd mynd digwyddiad penodol (84%). Dywedodd 22.2% mai'r rheswm dros ymweld oedd cymdeithasu a dywedodd 8.6% eu bod ar ymweliad busnes. Yr ateb lleiaf cyffredin oedd ei fod yn ymweliad cyffredinol neu ddigwydd galw heibio, 2.5% yn unig ddywedodd mai dyma'r rheswm dros yr ymweliad. Yn ogystal, rhoddodd 12.3% o'r ymatebion i'r cwestiwn reswm dros ymweld. Roedd y rhesymau'n cynnwys y canlynol:

- Dosbarth drama
- Adran, Theatr Gybolfa
- Theatr Gybolfa Adren
- Plentyn mewn clybiau neu ddosbarth drama
- Dosbarthiadau wythnosol
- Prynu llyfrau/cardiau
- Hyfforddiant Mentrau Iaith
- Dosbarthiadau Cymraeg.

Ffigur 1. Beth yw'r rhesymau dros eich ymweliad â Chanolfan Soar?



N= 81

Ffynhonnell: Arolwg ymwelwyr

Gofynnwyd i'r ymwelwyr nodi i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â nifer o sylwadau am Ganolfan Soar a'i thraweffaith ar Ferthyr Tudful ac a yw wedi codi ymwybyddiaeth ymwelwyr o ddigwyddiadau diwylliannol eraill yn yr ardal. Ymatebodd 83 o ymwelwyr i'r sylwadau hyn a chrynhoir eu hymatebion isod.

- Cytunodd 71.1% yn gryf a chytunodd 24.1% fod Canolfan Soar wedi gwella Merthyr Tudful fel lle i ymwelwyr.
- Cytunodd 79.3% yn gryf a chytunodd 20.7% fod Canolfan Soar wedi gwella Merthyr Tudful fel lle i gynnal digwyddiadau diwylliannol.
- Cytunodd 56.3% yn gryf a chytunodd 35% fod Canolfan Soar wedi codi'u hymwybyddiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol eraill yn yr ardal.
- Cytunodd 67.1% yn gryf a chytunodd 29.3% fod Canolfan Soar wedi'u gwneud yn fwy tebygol o ddod i ddigwyddiadau diwylliannol yn yr ardal.

Ffigur 2. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



N=83

Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi cipolwg ar farn ymwelwyr o ar ddatblygiad Canolfan Soar a'i thraweffaith ar Ferthyr Tudful. Mae'r safbwyntiau'n cyfateb â'r rheini a fynegwyd gan randdeiliaid, yn arbennig o ran canfyddiad o welliannau i'r amgylchedd adeiledig a chynnig diwylliannol Merthyr Tudful. Roedd mwyafrif sylweddol o ymwelwyr hefyd yn cytuno'n gryf bod y Ganolfan wedi'u gwneud yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn diwylliant ym Merthyr. Mae hyn yn awgrymu bod y Ganolfan yn cyflawni'i nodau i ehangu cyfranogiad, cwrdd a chynyddu galw a darparu rhaglen ddiwylliannol amrywiol i bobl Merthyr Tudful a de Cymru'n ehangach.

4. Partneriaethau a chynaliadwyedd

4.1 Partneriaethau

Roedd yr holl randdeiliaid o'r farn fod Canolfan Soar wedi datblygu ystod o bartneriaethau llwyddiannus dros y blynyddoedd. Mae'r rhain yn amrywio o grwpiau diwylliannol a chymunedol lleol a sefydliadau diwylliannol ar draws cymoedd de Cymru i sefydliadau cenedlaethol (e.e. yr Urdd), ac arianwyr. Ar lefel leol ystyrir bod y Ganolfan yn gweithio'n llwyddiannus ac yn strategol gyda'r Awdurdod Lleol ar adfywio lleol a diwylliant.

Er enghraifft, mae'r Ganolfan yn rhan o'r Fforwm Treftadaeth, sy'n edrych ar gynllunio digwyddiadau treftadaeth yn yr ardal. Mae enghreifftiau o bartneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol lleol yn cynnwys gweithio ar yr Ŵyl Wanwyn sydd ar y gweill ar gyfer pobl hŷn i hyrwyddo'u creadigrwydd, gyda Redhouse, Sgwâr Penderyn a Head 4 Arts.

Mae Coleg Merthyr yn denant yn y Ganolfan ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu partneriaethau agos i gefnogi nodau diwylliannol ac addysgol ar y cyd ym Merthyr a thu hwnt. Mae'r Coleg yn cyflwyno cyrsiau BTEC, Safon Uwch a graddau sylfaen mewn celfyddydau perfformio ac yn defnyddio'r theatr fel lle i ymarfer a pherfformio. Mae rhaglen ddiwylliannol y Ganolfan hefyd wedi rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr a thiwtoriaid y Coleg i gymryd rhan mewn ystod o gynyrchiadau ar lefel leol ac i gwrdd ag artistiaid ac unigolion sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a chael ysbrydoliaeth ganddynt.

'Mae nifer fawr o sefydliadau cymunedol mewn ardal ddaearyddol fach a chanddynt nodau cydnaws, ac mae'r Ganolfan wedi gweithredu fel canolbwynt llwyddiannus i weithgarwch o'r fath.'

Ystyriwyd bod y partneriaethau sy'n datblygu â Redhouse (lleoliad diwylliannol arall a chanddo theatr ym Mhontmorlais) yn arbennig o bwysig i gyfoethogi cynnig diwylliannol Merthyr yn y dyfodol. Roedd rheolwr prosiect o Redhouse ar bwyllgor theatr y Ganolfan ac mae'r ddau leoliad yn cydweithio. Mae sawl rhanddeiliad hefyd wedi nodi bod tenantiaid y Ganolfan yn cydweithio'n dda a bod hyn yn datblygu rhwydweithiau ar lefel leol. Mae clystyru cwmnïau a chanddynt yr un meddylfryd fel hyn yn draweffaith cadarnhaol arall i'r Ganolfan ac ystyrir ei bod yn darparu lle anffurfiol am waith partneriaeth - *'mae'r lle'n golygu y bydd casgliad o bobl a bydd pobl greadigol felly'n cwrdd, ac yn cydweithio*.'

4.2 Datblygiadau'r dyfodol

Fel y nodir mewn adrannau eraill, mae'r Ganolfan wedi dod ag arian o ystod eang o ffynonellau i gefnogi adnewyddu a datblygu'r adeilad, ynghyd â rhaglenni artistig. Ystyriwyd y bu'r amrywio hwn yn allweddol i'w llwyddiant.

'Mae Canolfan Soar i fyny gyda'r goreuon o ran gweithgareddau cymunedol gwirfoddol llwyddiannus ym Merthyr o ran sbarduno buddsoddiad.'

Serch hynny nodwyd heriau gan randdeiliaid o ran cynaliadwyedd dulliau ariannu presennol, gorddibyniaeth bosibl ar arian grant, yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a diffyg buddsoddiad yn y celfyddydau a chystadleuaeth gynyddol am arian diwylliannol ym Merthyr Tudful, yn bennaf o Theatr Redhouse ym Mhontmorlais. Nododd un rhanddeiliad, '*gan fod y Ganolfan wedi'i sefydlu bellach, mae'n anoddach gwneud cais am arian.'*

Dywed un arall, '*mae'u cyfnod mêl ar ben ac mae'n rhaid iddyn nhw gynnal eu proffil uchel.'* Ar y cyfan cytunodd yr holl randdeiliaid fod gan Ganolfan Soar hanes da o hyrwyddo'i hun ond nodwyd efallai y bydd angen ceisiadau am arian a digwyddiadau celfyddydol ar y cyd a datblygu cynni artistig mwy masnachol yn y dyfodol i gynnal a datblygu'r Ganolfan ymhellach.

Yn ôl y rhanddeiliaid nod allweddol y dyfodol ar gyfer y Ganolfan oedd datblygiad cynaliadwy parhaus trwy ehangu'i hapêl ddiwylliannol ac artistig wrth ddenu prosiectau mwy hyfyw'n fasnachol. Er y cydnabu bod y Ganolfan wedi manteisio'n llwyddiannus ar ystod eang o arian, roedd pryder ei fod yn bennaf yn arian prosiect tymor byr ac y bydd angen canolbwyntio'n fwy ar arian craidd i sicrhau cynllunio a staffio tymor hirach. Maen bosibl y gallai'r dull hwn olygu buddsoddiad amser ac adnoddau staff sylweddol i sicrhau'r math hwn o fuddsoddiad, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni ym Merthyr Tudful.

Yn ôl nifer o'r rhanddeiliaid, gwendid y Ganolfan ar hyn o bryd yw diffyg marchnata. Mae'r farn hon wedi'i seilio ar ganfyddiad nad oedd llawer o bobl leol yn gwybod am y Ganolfan na'i chynnig diwylliannol a masnachol. Eto, ystyriwyd bod angen mwy o adnoddau i helpu'r Ganolfan i godi ymwybyddiaeth ohoni a lefelau cymryd rhan ym Merthyr Tudful ac yng nghymoedd de Cymru.

'Mae'r Ganolfan yn sicr yn gwneud gwahaniaeth diwylliannol ac yn denu sylw pobl nad oedd diddordeb ganddynt mewn diwylliant cyn hynny, ond nid yw'n cael yr un effaith ddiwylliannol ar siaradwyr di-gymraeg eto.'

Roedd rhanddeiliaid yn cysylltu'r ffocws hwn ar ddatblygiad cynaliadwy, marchnata ac ariannu ag ail-ganolbwyntio ac ail-bwysleisio nodau ac amcanion strategol allweddol y Ganolfan. Roedd llawer o'r rhanddeiliaid o'r farn fod angen i'r Ganolfan ehangu'u hapêl a gwneud ei rhaglennu'n ganolog i gynnig diwylliannol Merthyr wrth gynnal ei chryfderau o ran darpariaeth Gymraeg. Er y cydnabu bod Canolfan Soar a Redhouse weithiau'n cystadlu am arian, ystyriodd rhanddeiliaid fod angen mwy o sylw ar gydweithio i gyfoethogi cynnig artistig eang Merthyr Tudful.

'Mae'n gyfnod newydd i Ganolfan Soar, ac i Ferthyr, ac mae llawer o adfywio'n digwydd ar sail treftadaeth a gall y Ganolfan fod yn rhan o'r broses hon - gellir dweud y gwnaeth y Ganolfan ei sbarduno. Mae'n fodel i ysbrydoli pobl ond mae'n rhaid iddyn nhw ehangu'u gweithgareddau allgymorth a chynyddu cyfranogiad lleol yn y celfyddydau.'

Cafodd hyn ei gysylltu â chael cynllun olyniaeth effeithiol ar waith. Nodwyd bod Canolfan Soar, fel sy'n wir am lawer o sefydliadau cymunedol tebyg, yn cael ei gyrru gan unigolion ymroddedig. Fel dywedodd un unigolyn, '*mae'r staff yn un o gryfderau arbennig y Ganolfan*.' Ystyriwyd bod hyn yn bwynt cadarnhaol iawn i'r Ganolfan, ond awgrymwyd y dylai Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful sicrhau bod strwythur rheoli cadarn ar waith (ar lefel bwrdd a thîm) i sicrhau twf cynaliadwy a hwyluso cynllunio olyniaeth.

'Mae llefydd fel Canolfan Soar yn hanfodol ar gyfer dyfodol canol trefi. Maen nhw'n creu bywiogrwydd ac economi fwy amrywiol gyda'r nos. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu cyfle rhagorol i farchnata Merthyr fel tref. Mae'n lle i gwrdd, i gynnal digwyddiadau a gwyliau ac i helpu i herio canfyddiadau o Ferthyr.'

5. Casgliadau

Mae Canolfan Soar yn cyflwyno ystod o fanteision diwylliannol ac economaidd i Ferthyr Tudful a chymoedd de Cymru. Mae'r Ganolfan yn effeithio'n gadarnhaol ar economi leol Merthyr Tudful gan gyfrannu at adfywio trefol parhaus trwy wella'r amgylchedd adeiledig a darparu man cyfarfod o safon yng nghanol y dref. Mae'r celfyddydau cymunedol a'r rhaglen ddiwylliannol yn parhau i annog ymgysylltiad â'r celfyddydau a hyrwyddo Merthyr Tudful fel lleoliad diwylliannol.

Mae datblygiad Canolfan Soar wedi effeithio'n gadarn ar economi leol Merthyr Tudful. Cynhyrchodd y Ganolfan **£594,100 – £608,537** ar gyfer yr economi leol yn 2014 ac amcangyfrifir bod cyfanswm y traweffaith economaidd a gynhyrchir gan Ganolfan Soar ar economi de Cymru rhwng **£1.29 – £1.30 million.** Mae Canolfan Soar hefyd yn cyflawni adenillion cadarnhaol ar fuddsoddiadau refeniw ac arian grant prosiectau. Ystyriwyd amrywiaeth y strategaethau ariannu a chynllunio a chyflawni effeithiol yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

Trwy ddarparu lle i fusnesau lleol, mae Canolfan Soar a'i thenantiaid yn cyfrannu at ddatblygu'r seilwaith economaidd lleol, gan gael traweffaith cadarnhaol pellach trwy ddarparu cyflogaeth a defnyddio ystod o gyflenwyr lleol. Mae'r Ganolfan wedi dod yn hwb i'r gymuned ac mae'n cynnal clwstwr o fusnesau sydd o'r un meddylfryd, sy'n hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth a phartneriaethau creadigol.

Mae Canolfan Soar wedi datblygu'n bartner allweddol mewn adfywio economaidd ac amgylcheddol yn ardal Pontmorlais Merthyr Tudful. Mae'i datblygiad wedi integreiddio'n dda i becynnau adfywio lleol ac mae'r Ganolfan yn cyflawni'i nodau strategol ei hun trwy ddarparu lle i bobl gwrdd, dysgu a chymdeithasu ac ymgymryd ag addysg a'r celfyddydau. Gellir ystyried y Ganolfan felly'n sbardun pwysig mewn denu pobl yn ôl i ganol y dref.

Bu'r ffocws cadarn ar dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol Merthyr Tudful yn elfen hanfodol o draweffaith y Ganolfan, gan gysylltu â'r gymuned Gymraeg a'r gymuned ehangach ym Merthyr ac annog creadigrwydd a chymryd rhan. Mae'r Ganolfan wedi dod yn hwb i'r Gymraeg ac yn sbardun allweddol i godi proffil yr iaith a chefnogi dysgwyr yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a busnesau Cymraeg. Mae hyn oll yn cyfrannu at draweffaith lleol a rhanbarthol economaidd a diwylliannol y Ganolfan.

Mae Canolfan Soar wedi cyfrannu'n bwysig at newid canfyddiadau o Ferthyr Tudful fel lle ar gyfer digwyddiadau diwylliannol ac ehangu mynediad at y celfyddydau. Mae ymwelwyr a rhanddeiliaid yn hapus ar y cyfan ag ansawdd digwyddiadau a'r cyfleusterau yn y Ganolfan. Mae'r Ganolfan felly'n cyflawni'i nodau'i hun i ehangu cymryd rhan, cwrdd, a chynyddu galw am y celfyddydau a darparu rhaglen ddiwylliannol amrywiol i bobl Merthyr Tudful ac ehangach yn ne Cymru.

Mae Canolfan Soar wedi datblygu ystod o bartneriaethau ar lefel strategol, rheolaethol ac artistig. Ar lefel leol ystyrir bod y Ganolfan yn gweithio'n llwyddiannus ac yn strategol gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill ar raglenni adfywio lleol a diwylliannol.

I gynnal y traweffaith hwn, mae angen i Ganolfan Soar ddatblygu'r partneriaethau hyn ymhellach ac ystyried ceisiadau ar y cyd am arian a digwyddiadau diwylliannol. Gall y

partneriaethau hyn alluogi'r Ganolfan i ganolbwyntio ar fanteisio ar arian tymor hirach yn ogystal â datblygu cynnig masnachol mwy artistig i gefnogi'i thwf. Dylid cydbwyso'r dull masnachol hwn â ffocws mwy ar ddigwyddiadau celfyddydau o safon a heriol ac ehangu'i hapêl ddiwylliannol trwy adeiladu ar ei chryfderau Cymraeg ac ymgysylltu â holl gymunedau Merthyr a De Cymru.